



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar  
gyfer Datblygu Gwledig;  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig  
European Agricultural Fund for  
Rural Development;  
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

## CANLLAWIAU AR DDANGOSYDDION

## LEADER

## Cynnwys

Cyflwyniad .....	6
Monitro .....	6
Gwerthuso .....	6
Blaenoriaethau a Meysydd Ffocws.....	7
Meysydd Ffocws – Adrodd .....	7
Diffiniadau Dangosyddion .....	8
Dangosyddion y Rhaglen .....	8
Dangosyddion Lefel Achos .....	9
Themâu Trawsbynciol .....	10
O.18 Poblogaeth Ardaloedd LAG .....	11
O.19 Nifer y LAG a ddewiswyd .....	12
O.20 Nifer y Prosiectau LEADER a Gynorthwywyd .....	13
O.21 Nifer y Prosiectau Cydweithredu a Gynorthwywyd .....	16
O.22 Nifer a Math Hyrwyddwyr y Prosiectau .....	17
O.23 Rhif Unigryw'r LAG a Gymerodd Ran yn y Prosiectau Cydweithredu.....	18
R.24/T.23. Swyddi a Grëwyd trwy Brosiectau a Gynorthwywyd (LEADER).....	19
Nifer y Swyddi a Ddiogelwyd trwy Brosiectau a Gynorthwywyd .....	21
Nifer y Cyfranogwyr a Gynorthwywyd.....	22
Nifer y Rhwydweithiau a Sefydlwyd.....	23
Nifer yr Astudiaethau Dichonoldeb .....	24
Nifer y Rhanddeiliaid yr Ymgysylltwyd â hwy .....	25
Nifer y Gweithgareddau Peilot a Gyflawnwyd/Gynorthwywyd.....	26
Nifer yr Hybiau Cymunedol.....	27
Nifer y Camau Lledaenu Gwybodaeth / Gweithgareddau Hyrwyddo a/neu Farchnata i Godi Ymwybyddiaeth o'r LDS a/neu Brosiectau.....	28
Thema LEADER .....	29
ATODIAD 1 .....	30
Blaenoriaethau a Meysydd Ffocws.....	30

## Geirfa

Ychwanegedd	Mae effaith sy'n deillio o ymyriad yn ychwanegol pe na bai wedi digwydd oni bai am yr ymyriad.
Tir Amaethyddol	Ystyr "tir amaethyddol" yw unrhyw dir sy'n dir â, yn laswelltir parhaol ac yn borfa parhaol neu'n gnydau parhaol, fel y'i diffinnir yn Erthygl 4 o Reoliad (UE) Rhif 1307/2013
Buddiolwr	Corff cyhoeddus neu breifat ac, at ddibenion Rheoliad EAFRD a Rheoliad EMFF yn unig, person naturiol, sy'n gyfrifol am gychwyn neu gychwyn a chyflawni gweithrediadau. Rheoliad (UE) Rhif 1303/2013.
PAC	Polisi Amaethyddol Cyffredin
Dangosydd Lefel Achos	Dangosyddion a osodir gan Lywodraeth Cymru i gydategu ac ychwanegu gwerth at ddangosyddion y Comisiwn Ewropeaidd sy'n ymdrin â gweithgarwch wedi'i ariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD).
CLLD	Datblygiad dan Arweiniad y Gymuned
Gweithrediad wedi'i gwblhau	Gweithrediad sydd wedi cael ei gwblhau'n ffisegol neu ei weithredu'n llawn ac y mae'r holl daliadau cysylltiedig wedi eu gwneud gan y buddiolwyr ac y mae'r cyfraniad cyhoeddus cyfatebol wedi ei dalu i'r buddiolwyr mewn perthynas ag ef. Pennir cwblhau gan y taliad olaf a wneir. Gweler hefyd <i>Gweithrediad</i> .
EAFRD	Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig
EIP	Partneriaeth Arloesi Ewrop
Menter	Unrhyw endid sy'n ymwneud â gweithgarwch economaidd, waeth beth fo ei ffurf gyfreithiol. Mae hyn yn cynnwys pobl hunangyflogedig a phartneriaethau neu gymdeithasau sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch economaidd yn rheolaidd.
ESI	Rhaglenni Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (sy'n cynnwys cronfeydd ERDF, ESF, EAFRD ac EMFF)
Maes Ffocws	Mae chwe blaenoriaeth polisi Datblygu Gwledig yr UE yn darparu'r sail ar gyfer cyflwyno cymorth oddi wrth yr EAFRD i ardaloedd gwledig. Mae'r blaenoriaethau polisi ehangach hyn sydd gan yr UE yn cael eu rhannu'n feysydd ymyrraeth penodol, a elwir Meysydd Ffocws (FAs); mae 18 o'r rhain i gyd. Gweler <i>atodiad 1</i> i gael rhagor o wybodaeth am y Blaenoriaethau a'r Meysydd Ffocws.
Coedwig	Ystyr "coedwig" yw darn o dir sy'n fwy na 0.5 hectar ac â choed sy'n uwch na 5 metr a gorchudd canopi o fwy na 10 y cant, neu goed a all gyrraedd y trothwyon hyn <i>in situ</i> ; ac nid yw'n cynnwys tir sydd o dan ddefnydd tir amaethyddol neu drefol yn bennaf.
FTE	Dylid cofnodi swydd fel Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE), ar sail wythnos 30 awr. Er enghraifft, os yw swydd yn golygu gweithio 30 awr yr wythnos neu ragor, 1 FTE yw hi. Os nad yw swydd yn amser llawn, bydd angen rhannu'r oriau sy'n cael eu gweithio bob wythnos â 30 i roi'r gyfran o FTE a gynrychiolir. Er enghraifft, 0.6 FTE fyddai 18 awr yr wythnos.
Rhywedd	Mae'r term "rhyw" yn cyfeirio at y nodweddion biolegol a ffisiolegol sy'n diffinio dynion a menywod; mae'r term "rhywedd" yn cyfeirio at gynrychiolaeth gymdeithasol priodoleddau gwryw a benyw. At ddibenion monitro argymhellir:

	<p>- mewn achosion lle caiff gwybodaeth ei chasglu'n uniongyrchol oddi wrth y cyfranogwyr dylid cofnodi hunaniaeth y cyfranogwyr o ran rhywedd (h.y. y rhyw/rhywedd mae'r cyfranogwr yn dymuno cael ei uniaethu ag ef);</p> <p>- mewn achosion lle caiff gwybodaeth ei chymryd o gofrestri, gellir defnyddio'r cofnodion sy'n bodoli eisoes heb ragor o ymholiadau.</p>
Dangosydd Effaith	Mae dangosyddion effaith yn cyfeirio at fuddion ar lefel y Mesur neu'r Rhaglen Datblygu Gwledig/polisi. Mae 16 dangosydd effaith cyffredin a osodir gan y Comisiwn Ewropeaidd sy'n ymdrin â'r PAC, y mae 13 ohonynt yn berthnasol i Raglenni Datblygu Gwledig
LAG	Grŵp Gweithredu Lleol
LDS	Strategaeth Datblygu Leol. Cwblhaodd pob LAG Strategaeth Datblygu Leol ar ddechrau'r cyfnod rhaglennu. Roeddent yn nodi set gydlynus o weithrediadau i gyflawni amcanion lleol a diwallu anghenion lleol, sy'n cyfrannu at wireddu strategaeth yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer twf call, cynaliadwy a chynhwysol ac sy'n cael eu cyflawni mewn partneriaeth ar y lefel briodol.
LEADER	Acronym Ffrangeg yw LEADER sy'n sefyll am ' <i>Liaison Entre Actions de Développement de l'Économie Rurale</i> ', sy'n golygu 'Cysylltiadau rhwng yr economi wledig a chamau gweithredu datblygu'.
LU	Uned Da Byw: Mae da byw'n cyfeirio at anifeiliaid dof, fel gwartheg a defaid, sydd fel arfer yn cael eu magu neu eu cadw ar gyfer eu cig a/neu eu cynnyrch. Gweler Rheoliad (UE) Rhif 808/2014 Atodiad II i gael cyfraddau trosi
Mesur	Set o weithrediadau sy'n cyfrannu at un neu ragor o flaenoriaethau'r Undeb ar gyfer datblygu gwledig
Gweithrediad	Prosiect, contract, cam gweithredu neu grŵp o brosiectau a ddewisir gan awdurdodau rheoli'r rhaglenni dan sylw, neu o dan eu cyfrifoldeb, sy'n cyfrannu at amcanion blaenoriaeth neu flaenoriaethau.
Dangosydd Cynnyrch	Mae 27 dangosydd cynnyrch wedi'u gosod gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig. Mae'r rhain yn mesur gweithgareddau sy'n cael eu gweithredu mewn Rhaglenni Datblygu Gwledig/polisi. Mae rhai dangosyddion cynnyrch yn berthnasol i bob Mesur (e.e. cyfanswm gwariant cyhoeddus), mae rhai'n berthnasol i nifer o Fesurau (e.e. maes a gefnogir ac ati), mae eraill yn berthnasol i un Mesur (LEADER ac ati). Mae cynhyrchion yn mesur cynnydd gweithgareddau'r prosiect. Felly mae'n rhaid i gynhyrchion allu cael eu rhagamcanu a'u cyflawni fel rhan o'r prosiect. Caiff cynnydd o ran cyflawni'r cynhyrchion ei fonitro yn ystod oes y prosiect/gweithrediad.
Cyfranogwr	Mae 'cyfranogwyr' yn cyfeirio at bobl sy'n cael budd uniongyrchol o ymyriad. Dim ond y bobl hynny y gellir eu hadnabod ac y gellir gofyn iddynt am eu data personol ac y mae gwariant penodol wedi'i neilltuo iddynt fydd yn cael eu cofnodi fel cyfranogwyr.
Blaenoriaeth	Mae chwe blaenoriaeth polisi Datblygu Gwledig gan yr UE sy'n darparu'r sail ar gyfer cyflwyno cymorth oddi wrth yr EAFRD i ardaloedd gwledig, sef Trosoglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi,

	Hyfywedd a Chystadleurwydd Ffermydd, Trefniadaeth y Gadwyn Fwyd a Rheoli Risg, Adfer, Gwarchod a Gwella Ecosystemau, Economi sy'n Defnyddio Adnoddau'n Effeithiol ac sy'n gallu Gwrthsefyll yr Hinsawdd a Chynhwysiant Cymdeithasol a Datblygu Economaidd. Gweler atodiad 1 i gael rhagor o wybodaeth am y Blaenoriaethau a'r Meysydd Ffocws.
Prosiect	'Prosiect' yw uned isaf trefniadaeth gweithgarwch a ariennir gan yr EAFRD ac mae'n cynnwys gweithgaredd/gweithgareddau sy'n cael ei gyflawni / eu cyflawni yng nghyd-destun gweithrediad. At ddibenion yr EAFRD gall prosiect a gweithrediad fod yr un peth, ond nid ydynt o angenrheidrwydd yr un peth.
Dangosydd Canlyniadau	Mae chwe dangosydd canlyniadau cydategol ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae'r rhain yn mesur effeithiau uniongyrchol Rhaglen Datblygu Gwledig/polisi ac maent yn gysylltiedig â'r Meysydd Ffocws (Blaenoriaethau 2 i 5). Bwriedir i ddangosyddion canlyniadau gynrychioli'r newid a ragwelir o ganlyniad uniongyrchol i'r ymyriad(au) trwy'r PAC.
BBaCh	<p>Busnes micro, bach neu ganolig fel y'i diffinnir yn Argymhelliad Y Comisiwn 2003/361/EC.</p> <p>Mae Busnes Bach a Chanolig yn cyflogi llai na 250 o gyflogeion (yn seiliedig ar gyfwerth ag amser llawn) ac mae ganddo drosiant blynyddol heb fod yn fwy na 50 miliwn ewro a/neu gyfanswm blynyddol y fantolen heb fod yn fwy na 43 miliwn ewro. Dylid trin staff rhan amser a gweithwyr tymhorol fel ffracsiwn o gyfwerth ag amser llawn.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae BBaChau yn cynnwys 3 is-gategori o fusnesau: micro, bach a chanolig;</li> <li>- mae micro busnesau'n cyflogi llai na 10 cyflogai, mae busnesau bach yn cyflogi llai na 50 o gyflogeion, ac mae busnesau canolig yn cyflogi llai na 250 o gyflogeion;</li> <li>- Mae maint y busnes hefyd yn cyfeirio at y trosiant blynyddol a chyfanswm blynyddol y fantolen mewn rhai sefyllfaoedd.</li> </ul>

## Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn nodi diffiniadau'r dangosyddion, a'r data y bydd angen ichi eu darparu i Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithrediadau a ariennir trwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Maent yn cynnwys awgrymiadau o ran y dystiolaeth y bydd angen ichi ei chasglu er mwyn cefnogi'ch hawliadau.

## Monitro

Monitro yw arsylwi ar weithrediad a pherfformiad rhaglen trwy broses barhaus a systematig o gynhyrchu gwybodaeth feintiol ac, mewn rhai achosion, ansoddol.

Mae monitro'n helpu i ganfod a meintioli unrhyw wyro o'r cynlluniau a thargedau cychwynnol ac mae'n un o ofynion arian yr EAFRD. Yn ogystal â monitro gwariant, mae monitro cynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad yn ei gwneud yn bosibl mesur cynhyrchion, fel nifer y mentrau neu gyfranogwyr a gefnogir, a chanlyniadau.

Mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n cyflawni gweithrediadau a ariennir gan yr UE ddarparu data i'w gwneud yn bosibl monitro cynnydd gweithgareddau, gan gynnwys perfformiad yn erbyn targedau allweddol.

Dylid casglu data monitro (dangosyddion cynnyrch a dangosyddion canlyniadau/targedau) o eitemau o ddata a gofnodir ar lefel gweithrediad. Bydd angen darparu data i gefnogi hawliadau. Dylai buddiolwyr gasglu data monitro ychwanegol i'w gwneud yn bosibl gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith y gweithrediad.

Dylid darparu'r data trwy WEFO ar lein fel rhan o'r broses hawliadau ar gyfer cynlluniau economaidd gymdeithasol yn y Rhaglen. Mae dogfen rhaglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 ar gael ar:

<https://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/?lang=cy>

Mae hon yn disgrifio nodau cyffredinol y rhaglen y bydd gweithrediadau/gweithgareddau'n digwydd ynddi.

## Gwerthuso

Er y gall gwaith monitro ddangos yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni, h.y. dangos y sefyllfaoedd cynt ac wedyn, er mwyn priodoli'r newid hwnnw i weithgareddau'r prosiect bydd angen ichi gyflawni gwaith gwerthuso.

Mae gwaith gwerthuso'n edrych ar weithrediad ac effaith y gweithgareddau sydd wedi'u cyflawni, i ba raddau y gellir priodoli'r cynhyrchion a'r canlyniadau'n uniongyrchol i'r gweithgareddau hynny, ac a yw'r effeithiau a buddion a ragwelwyd wedi cael eu gwireddu.

Mae'n ofynnol i bob Grŵp Gweithredu Lleol (LAG) gyflawni gwerthusiad annibynnol o'r ffordd y gwireddir eu Strategaeth Datblygu Leol (LDS).

Gellir gweld canllawiau ar hyn ar:

<https://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/evaluation-guidance/?lang=cy>

I gael rhagor o wybodaeth am fonitro a gwerthuso, anfonwch neges e-bost at y Tîm Strategaeth: [RDPMandE@gov.wales](mailto:RDPMandE@gov.wales)

## **Blaenoriaethau a Meysydd Ffocws**

Mae'n ofynnol i'r rheiny sy'n cyflawni prosiectau a ariennir gan yr UE ddarparu data i'w gwneud yn bosibl monitro'r cynnydd, gan gynnwys perfformiad yn erbyn targedau allweddol.

Rhaid i unrhyw ymyriad a ariennir trwy'r Rhaglen gyd-fynd â'r Blaenoriaethau, y Meysydd Ffocws a'r Mesurau a nodir yn nogfen Rhaglen Cymru.

Bydd angen i brosiectau arfaethedig gael eu halinio ag un o'r Meysydd Ffocws o dan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Mae'n rhaid i bob Maes Ffocws gyfrannu at amcanion trawsbynciol arloesi, yr amgylchedd a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu iddo.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Blaenoriaethau a'r Meysydd Ffocws yn Nodiadau Cyfarwyddyd y Cynllun a roddwyd ichi a hefyd ar dudalennau gwefan y Rhaglen Datblygu Gwledig.

## **Meysydd Ffocws – Adrodd**

Rhaid i bob gweithrediad alinio â Maes Ffocws yn y Rhaglen. Dylid adrodd arno o dan y Maes Ffocws (FA) y mae'n perthyn iddo (yn cael arian trwyddo). Y diben yw monitro'r hyn sydd wedi'i raglennu. Ni ddylid rhannu un gweithrediad, mae'r gwariant a'r dangosyddion cynnyrch sy'n gysylltiedig â'r gweithrediad hwnnw wedi'u priodoli'n gyfan gwbl i'r Maes Ffocws perthnasol.

Yn gyffredinol, mae'r Maes Ffocws yn hysbys cyn y gwaith gweithredu. Yn y Rhaglen Datblygu Gwledig, mae'r mathau o weithrediadau neu Is-fesurau wedi cael eu cynllunio i roi sylw i Faes / Feysydd Ffocws penodol er mwyn ymateb i angen sydd wedi'i nodi ac yn unol â strategaeth y rhaglen. Hwn yw'r 'prif' Faes Ffocws ar gyfer adrodd ar waith monitro a chynnydd ariannol.

Ar gyfer pob gweithrediad a gymeradwyir, dylid hefyd adrodd ar gyfraniadau ychwanegol at Faes / Feysydd Ffocws arall/eraill (os oes rhai). O gofio dimensiwn aml-bwrpas gweithrediadau datblygu gwledig mae'n bwysig monitro'r cyfraniad eilaidd hwn. Ar gyfer y Meysydd Ffocws eilaidd (y tu allan i'r Maes Ffocws mae'n cael ei raglennu a'i fonitro o dano), caniateir cyfrif dwbl (e.e. ar gyfer gwariant; adroddir ar 100% o gyfanswm gwariant

cyhoeddus y gweithrediad o dan y Maes / Meysydd Ffocws y mae ganddo gyfraniad ychwanegol iddo/iddynt).

## Diffiniadau Dangosyddion

### Dangosyddion y Rhaglen

Ariennir Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) yr Undeb Ewropeaidd a chan Lywodraeth Cymru. Yn y Rhaglen mae amrywiaeth o ddangosyddion y Rhaglen<sup>1</sup> y mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru adrodd i'r Comisiwn Ewropeaidd yn eu herbyn ar gyfer gweithgareddau a ariennir trwy'r EAFRD.

Mae'r dangosyddion hyn yn rhan o system monitro wedi'i diwygio a'i symleiddio a grëwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ac maent yn adeiladu ar drefniadau monitro a chanllawiau Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-2013.

Mae gwaith y Comisiwn Ewropeaidd wrth fonitro Rhaglenni<sup>2</sup> yn canolbwyntio ar nifer graidd o ddangosyddion cynnyrch a chanlyniadau / targedau craidd sy'n cipio cynnydd ymyriadau tuag at amcanion cytunedig Rhaglenni. Mae'r dangosyddion Rhaglen hyn yn berthnasol i bob Aelod-wladwriaeth ac Awdurdod Rheoli sy'n cyflawni rhaglenni'r EAFRD er mwyn caniatáu cyfansymio ar lefel yr UE.

Yn gyffredinol;

- Bydd *dangosyddion* Cyd-destun Cyffredin (llinell sylfaen) a *chynnyrch* yn cael eu mesur trwy wybodaeth a gesglir yn y man darparu, fel arfer trwy gofnodion gweinyddol i fesur y gweithgarwch uniongyrchol a gyflawnwyd yn yr ymyriadau, er efallai y bydd achlysuron pan fo'n well cael y wybodaeth trwy gynnal arolygon.
- Mae'n bosibl y bydd *dangosyddion* Canlyniadau a Thargedau yn cael eu mesur naill ai trwy gofnodion gweinyddol neu drwy dulliau gwerthuso fel arolygon sampl i fesur effaith ganolraddol y rhaglen.
- Ar y llaw arall, bydd *dangosyddion* Effaith yn cael eu canfod ar y cam gwerthuso ar ddiwedd cyfnod y rhaglen, gan ddefnyddio gwybodaeth am fewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau, ond hefyd offer eraill a ffynonellau data ehangach er mwyn creu darlun o effaith net y rhaglen ar ei hamcanion strategol ehangach. Mae'n bwysig, ar ddechrau eich ymyriad, ystyried y wybodaeth mae ei hangen i gyfrifo dangosyddion effaith fel y bydd data ar gael ar adeg gorffen a gwerthuso'r prosiect.

---

<sup>1</sup> Mae system monitro orfodol y Comisiwn Ewropeaidd fel y'i rhestrir yn Rheoliad UE 808/2014 yn cynnwys: 45 dangosydd cyd-destun cyffredin (llinell sylfaen); 26 dangosydd cynnyrch; 13 dangosydd Fframwaith Perfformiad; 25 dangosydd canlyniadau; 24 dangosydd targed; 16 dangosydd effaith a 30 Cwestiwn Gwerthuso Cyffredin.

<sup>2</sup> Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y fframwaith monitro a gwerthuso ar gyfer y Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP) sy'n cynnwys Datblygu Gwledig ar;  
<http://ec.europa.eu/transparency/regexpert/index.cfm?do=groupDetail.groupDetailDoc&id=21095&no=3>



Gellir gweld rhestr o ddangosyddion lefel Rhaglen LEADER isod:

- O.1 Cyfanswm Gwariant Cyhoeddus (data i gael eu cipio trwy hawliadau)
- O.19 Nifer y LAG a ddewiswyd
- O.18 Poblogaeth ardaloedd LAG
- O.20 Nifer y prosiectau LEADER a gynorthwyir
- O.21 Nifer y prosiectau cydweithredu (rhyngdiriogaethol / trawswladol)
- O.22 Nifer hyrwyddwyr y prosiectau, a'u mathau
- O.23 Rhif unigryw y LAG sydd wedi ymwneud â phrosiectau cydweithredu

Gan fod dangosyddion Rhaglen y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn cipio gwybodaeth lefel uchel, mae dangosyddion ategol lefel Cymru ('lefel achos') wedi cael eu datblygu er mwyn cipio'n well y gweithgarwch a gyflawnwyd (gweler yr adran 'Llywodraeth Cymru – dangosyddion Lefel Achos' isod).

## **Dangosyddion Lefel Achos**

Gan gydnabod ei bod yn bosibl na fydd dangosyddion y Rhaglen a osodir gan y Comisiwn Ewropeaidd yn cipio effeithiau'r rhaglen yn llawn, mae dangosyddion ychwanegol (lefel achos) wedi cael eu datblygu. Mae'r rhain yn rhoi cyfle i gipio gwybodaeth bwysig arall ynghylch perfformiad Cynlluniau yn y Rhaglen a chofnodi perfformiad gweithgarwch prosiect (gweithrediad).

Bydd yn ofynnol i brosiectau ddarparu targedau i Lywodraeth Cymru ar gyfer pob un o'r dangosyddion a ddewisir. Bydd angen i'r targedau hyn gael eu rhannu fel y gellir mesur cynnydd ar wahanol adegau yn ystod oes y prosiect ac y gellir darparu rhagolygon rhagamcanedig o'r cyflawniadau.

Gellir gweld rhestr o ddangosyddion lefel achos LEADER isod:

- Nifer yr Astudiaethau Dichonoldeb
- Nifer y Rhwydweithiau a sefydlwyd
- Nifer y swyddi a ddiogelwyd
- Nifer y gweithgareddau peilot a gyflawnwyd/gefnogwyd
- Nifer yr Hybiau Cymunedol
- Nifer y camau lledaenu gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r Strategaeth Datblygu Leol a/neu ei phrosiectau
- Nifer y gweithgareddau hyrwyddo a/neu farchnata a gyflawnwyd i hyrwyddo'r Strategaeth Datblygu Leol a/neu ei phrosiectau
- Nifer y rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy
- Nifer y cyfranogwyr a gefnogwyd
- Nifer y prosiectau Cymorth Technegol paratoadol a gefnogwyd
- Thema LEADER

## Themâu Trawsbynciol

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru gasglu ac adrodd ar ddata ariannol a dangosyddion ar gyfer yr holl brosiectau a gefnogir. Mae hyn yn cynnwys sut y bydd y prosiectau'n gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at *Themâu* Trawsbynciol Llywodraeth Cymru sef:

- Cyfle Cyfartal,
- Datblygu Cynaliadwy,
- Trechu Tlodi ac Allgau Cymdeithasol
- Y Gymraeg.

Mae hyn yn ychwanegol at y tri *Amcan* Trawsbynciol a osodwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer y Rhaglen sef:

- Arloesi
- Yr Amgylchedd
- Ymaddasu i'r Newid yn yr Hinsawdd a'i Liniaru

Mae llawer o'r dangosyddion a osodwyd gan Ewrop yn cipio gwybodaeth y gellir ei defnyddio i adrodd yn erbyn y penawdau hyn. Bydd gwybodaeth ddemograffig am unigolion/busnesau a gynorthwywyd ac a gefnogwyd yn cael ei chasglu ar gyfer Cynlluniau perthnasol, mewn ffordd debyg i'r rheiny a ddefnyddir gan y cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd eraill. Mae hyn yn cynnwys y nodweddion canlynol lle bo'n berthnasol:

- Rhywedd;
- Anabledd;
- Ethnigrwydd; a'r
- Gymraeg

## **O.18 Poblogaeth Ardaloedd LAG**

Cyfanswm poblogaeth yr holl ardaloedd LAG a ariennir o dan LEADER yng ngwlad/rhanbarth y rhaglen datblygu gwledig yw hwn. Ni ddylid priodoli'r dangosydd hwn i unrhyw Faes Ffocws (FA).

Diffiniad y boblogaeth sy'n cael budd yw'r defnyddwyr posibl: maint y boblogaeth yn yr ardal (e.e. cymuned, grŵp o gymunedau...) sy'n cael budd o'r gwasanaeth/seilwaith

### **Uned adrodd**

Rhifiadol (dim lleoedd degol) – Nifer o drigolion

### **Ffynhonnell y data ac amseriad adrodd**

Adroddir pan ddewiswyd LAG – Cyfanswm poblogaeth wledig yr ardal: cofnodir pan ddewisir strategaethau datblygu lleol gan yr Awdurdod Rheoli/Grŵp Gweithredu Lleol. Ffurflen gais a chadarnhad/diwygiad ar ôl cwblhau'r gweithrediad os oes angen

### **Mesurau i adrodd yn eu herbyn:**

Dylid adrodd y dangosydd hwn yn erbyn y Mesur(au)/Is-fesur(au) canlynol:

19

### **Tystiolaeth Archwilio:**

Ystadegau Gwladol

---

## **O.19 Nifer y LAG a ddewiswyd**

Mae'r dangosydd hwn yn ymdrin â chyfanswm y LAG a ddewiswyd a nifer y LAG aml-gronfa. Ni ddylid priodoli'r dangosydd hwn i unrhyw Faes Ffocws (FA).

### **Adrodd Ychwanegol:**

Mae rhaniad ychwanegol yn ôl Nifer y LAG a Ddewiswyd yn ofynnol ar gyfer yr holl Is-fesurau i'r dangosydd hwn. Wrth adrodd ar WEFO Ar-lein, ni ddylai'r ffigur yn y rhaniad fod yn fwy na'r cyfanswm e.e. os mai 1 yw'r gwerth ar gyfer "Nifer y LAG a ddewiswyd", byddai 1 hefyd yn cael ei gofnodi yn y rhaniad ychwanegol isod:

- Ar gyfer yr holl Is-fesurau bydd y rhaniad canlynol o Nifer y LAG a Ddewiswyd yn ofynnol:
  - LAG – aml-gronfa
  - LAG – arall

### **Uned adrodd**

Rhifiadol (dim lleoedd degol) – gwerthoedd cyfan yn unig

### **Ffynhonnell y data ac amseriad adrodd**

Adroddir pan ddewiswyd LAG

### **Mesurau i adrodd yn eu herbyn:**

Dylid adrodd y dangosydd hwn yn erbyn y Mesur(au)/Is-fesur(au) canlynol:

19

### **Tystiolaeth Archwilio:**

Dewis gan Lywodraeth Cymru yn dilyn proses ymgeisio

## O.20 Nifer y Prosiectau LEADER a Gynorthwywyd

Nifer y prosiectau LEADER a gynorthwywyd – ar gyfer pob prosiect, dylai rheolwyr y LAG nodi beth yw prif amcan y prosiect gan ddefnyddio'r rhestr o Feysydd Ffocws (FA); caiff y prosiect ei ddisgrifio gyda'r FA mwyaf perthnasol/pennaf mae'n cyfrannu ato).

Mae LEADER yn cael ei raglennu'n gyfan gwbl o dan Faes Ffocws 6B er y gall prosiectau unigol LEADER gyfrannu at wahanol Feysydd Ffocws. Pan fo LAG yn dewis ei weithrediadau, disgwylir y dylai'r LAG nodi, ar gyfer pob prosiect a ddewiswyd, brif amcan y prosiect (trwy ddefnyddio'r rhestr o Feysydd Ffocws – gweler **Atodiad 1**; caiff y prosiect ei ddisgrifio gyda'r FA mwyaf perthnasol). Bydd y wybodaeth monitro ddangosol hon yn caniatáu creu cyswllt rhwng cyflawniadau LEADER a'r gwaith o fonitro'r Rhaglen Datblygu Gwledig prif-ffrwd. Caiff y data hyn eu hychwanegu at gyflawniadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig prif-ffrwd i ddangos canlyniad y Rhaglen Datblygu Gwledig yn gyfan.

I fonitro cyfraniadau'r prosiectau LEADER i'r Meysydd Ffocws (FA), cesglir un dangosydd am bob prosiect. Mae'r dangosydd sydd i gael ei gasglu'n dibynnu ar y prif FA mae'r prosiect yn cyfrannu ato. Rhestr o ddangosyddion i gael eu casglu gan ddibynnu ar amcan mwyaf perthnasol y prosiect LEADER:

FA 1A	-
FA 1B	Nifer y gweithrediadau cydweithredu Dylai'r dangosydd hwn gofnodi nifer y gweithrediadau cydweithredu a gynorthwywyd ar wahân i EIP. Gallai un gweithrediad naill ai fod yn gyfwerth ag un prosiect (e.e. llunio cynllun rheoli coedwig) neu beidio (e.e. strategaethau lleol nad ydynt yn Ddatblygiadau dan Arweiniad y Gymuned...). Mae'n debyg y byddai un gweithrediad a gynorthwywyd (grŵp, rhwydwaith/clwstwr, strategaethau lleol nad ydynt yn Ddatblygiadau dan Arweiniad y Gymuned...) yn rhoi nifer o brosiectau ar waith.
FA 1C	Nifer y cyfranogwyr a hyfforddwyd Dyma nifer y bobl sy'n dilyn ac yn cwblhau cwrs hyfforddi. Ar gyfer y dangosydd hwn gallai'r un cyfranogwr gael ei gyfrif cynifer o weithiau ag y mae'n cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau hyfforddi (caniateir cyfrif dwbl). Fodd bynnag, dylid cofnodi rhif unigryw'r cyfranogwyr sy'n dilyn yr hyfforddiant mewn cronfa ddata fel tystiolaeth o'r hyfforddiant a dylai gynnwys gwybodaeth fel; enw, dyddiad geni, math o gyfranogwr (ffermio, bwyd, coedwigaeth ac ati), rhywedd, rhif adnabod personol ac unigryw i bob cyfranogwr, nifer yr oriau o hyfforddiant a gafwyd (am bob cyfranogwr), rhif adnabod unigryw'r hyfforddiant, gwybodaeth am gynnwys yr hyfforddiant a rhif adnabod unigryw'r darparwr hyfforddiant, ynghyd â maes sy'n dangos a yw'r cais/hyfforddiant wedi cael ei gymeradwyo ac a gafodd ei gwblhau.
FA 2A a 2B	Nifer y daliadau/buddiolwyr a gynorthwywyd Unigolion neu endidau ar wahân i ddaliadau fferm a gafodd gymorth yw buddiolwyr. Os yw daliadau a buddiolwyr yn cael

	cymorth o dan yr un Is-fesurau, cânt eu hadio heb wahaniaethu. Dylid cofnodi rhaniad ychwanegol yn ôl Oedran a Rhywedd
FA 3A a 3B	Nifer y daliadau a gynorthwywyd neu sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau a gynorthwywyd Nifer y daliadau fferm sy'n cymryd rhan / cael cymorth
FA 4A, 4B a 4C	Cyfanswm arwynebedd (amaethyddiaeth)
FA 4A, 4B a 4C	Cyfanswm arwynebedd (coedwigaeth)
FA 5A	Cyfanswm arwynebedd
FA 5B a 5C	Cyfanswm buddsoddiad Mae Cyfanswm buddsoddiad yn hafal i swm holl wariant cyhoeddus a phreifat (gwariant cymwys yn unig) yr holl fuddsoddiadau diriaethol a/neu anniriaethol a wnaed ar gyfer gweithrediadau wedi'u cwblhau a gynorthwywyd o dan Fesur/Is-fesur buddsoddi penodol. Os na chaiff unrhyw ran breifat ei buddsoddi, dylai cyfanswm y buddsoddiad fod yn hafal i werth cyfanswm y gwariant cyhoeddus. Uned adrodd: Ariannol (£ GBP) – Ar gyfer gwariant dylai pob ffigur gael ei dalgrynnu i'r gwerth cyfan agosaf.
FA 5D	Cyfanswm arwynebedd neu nifer yr Unedau Da Byw (LU)
FA 5E	Cyfanswm arwynebedd
FA 6A	-
FA 6B	Poblogaeth sy'n cael budd o wasanaethau/seilweithiau gwell Cyfanswm y boblogaeth sy'n cael budd o wasanaethau/seilweithiau gwell. Bydd y dangosydd cynnyrch hwn yn cyfrif y boblogaeth bosibl sy'n cael budd o wasanaethau/seilweithiau gwell, gan gynnwys rhaniad rhwng gweithrediadau nad ydynt yn TGCh, band eang a TGCh eraill. Bydd yn cyfrif y boblogaeth nifer o weithiau os yw nifer o weithrediadau'n cael eu cynorthwyo yn yr un gymuned (cyfrif dwbl). Fodd bynnag, dylid hefyd cofnodi'r boblogaeth unigryw sy'n cael budd lle caiff cymunedau a'u poblogaethau cysylltiedig eu cyfrif unwaith yn unig (dim cyfrif dwbl). Mae'r 'boblogaeth a fydd yn cael budd' y cyfeirir ati yn y dangosydd yn dibynnu ar faint a chyrhaeddiad y prosiect dan sylw
FA 6C	Poblogaeth sy'n cael budd o wasanaethau/seilweithiau TGCh gwell Cyfanswm y boblogaeth sy'n cael budd o wasanaethau/seilweithiau TGCh gwell (band eang, TGCh eraill neu eraill). Bydd y dangosydd cynnyrch hwn yn cyfrif y boblogaeth bosibl sy'n cael budd o wasanaethau/seilweithiau gwell, gan gynnwys rhaniad rhwng gweithrediadau nad ydynt yn TGCh, band eang a TGCh eraill. Bydd yn cyfrif y boblogaeth nifer o weithiau os yw nifer o weithrediadau'n cael eu cynorthwyo yn yr un gymuned (cyfrif dwbl). Fodd bynnag, dylid hefyd cofnodi'r boblogaeth unigryw sy'n cael budd lle caiff cymunedau a'u poblogaethau cysylltiedig eu cyfrif unwaith yn unig (dim cyfrif dwbl). Mae'r 'boblogaeth a fydd yn cael budd' y cyfeirir ati yn y dangosydd yn dibynnu ar faint a chyrhaeddiad y prosiect dan sylw

**Uned adrodd**

Rhifiadol (dim lleoedd degol) – gwerthoedd cyfan yn unig (prosiectau a gynorthwywyd)

**Ffynhonnell y data ac amseriad adrodd**

Cais – adroddir pan fo wedi'i gwblhau

**Mesurau i adrodd yn eu herbyn:**

Dylid adrodd y dangosydd hwn yn erbyn y Mesur(au)/Is-fesur(au) canlynol:

19.2

**Tystiolaeth Archwilio:**

Cadarnhad oddi wrth gorff gweinyddu'r LAG

---

## **O.21 Nifer y Prosiectau Cydweithredu a Gynorthwywyd**

Mae'r dangosydd hwn yn cofnodi nifer y prosiectau cydweithredu a gynorthwywyd wedi'u rhannu yn ôl naill ai cydweithredu rhyngdiriogaethol neu gydweithredu trawswladol. Ni ddylid priodoli'r dangosydd i unrhyw Faes Ffocws.

### **Adrodd Ychwanegol:**

Mae rhaniad ychwanegol yn ôl Math o Brosiect Cydweithredu'n ofynnol ar gyfer y dangosydd hwn. Wrth adrodd ar WEFO Ar-lein, ni ddylai'r ffigur yn y rhaniad fod yn fwy na'r cyfanswm e.e. os mai 1 yw'r gwerth ar gyfer "Nifer y Prosiectau Cydweithredu a Gynorthwywyd", byddai 1 hefyd yn cael ei gofnodi yn y rhaniad ychwanegol fel y dangosir isod:

- Cydweithredu rhyngdiriogaethol
- Cydweithredu trawswladol
- Cydweithredu cymorth technegol paratoadol

### **Uned adrodd**

Rhifiadol (dim lleoedd degol) – gwerthoedd cyfan yn unig

### **Ffynhonnell y data ac amseriad adrodd**

Cais – adroddir ar ôl i'r taliad cyntaf gael ei wneud.

### **Mesurau i adrodd yn eu herbyn:**

Dylid adrodd y dangosydd hwn yn erbyn y Mesur(au)/Is-fesur(au) canlynol:

19.3

### **Tystiolaeth Archwilio:**

Cadarnhad oddi wrth gorff gweinyddu'r LAG

---



## **O.22 Nifer a Math Hyrwyddwyr y Prosiectau**

Mae rhaniad o nifer a math Hyrwyddwyr y Prosiectau (buddiolwr arian) yn ofynnol ar gyfer prosiectau.

### **Adrodd Ychwanegol:**

Wrth adrodd ar WEFO Ar-lein, ni ddylai'r ffigur yn y rhaniad fod yn fwy na'r cyfanswm e.e. os mai 1 yw'r gwerth ar gyfer "Nifer hyrwyddwyr y prosiectau", byddai 1 hefyd yn cael ei gofnodi yn y rhaniad ychwanegol a ddangosir isod:

- Cyrff Anllywodraethol (NGO)
- Grwpiau Gweithredu Lleol (LAG)
- Cyrff cyhoeddus
- Busnesau micro, bach neu ganolig (BBaChau)
- Eraill (e.e. sefydliadau gwirfoddol)

### **Uned adrodd**

Rhifiadol (dim lleoedd degol) – gwerthoedd cyfan yn unig

### **Ffynhonnell y data ac amseriad adrodd**

Cais – adroddir ar ôl i'r taliad cyntaf gael ei wneud.

### **Mesurau i adrodd yn eu herbyn:**

Dylid adrodd y dangosydd hwn yn erbyn y Mesur(au)/Is-fesur(au) canlynol:

19.2

### **Tystiolaeth Archwilio:**

Cadarnhad oddi wrth gorff gweinyddu'r LAG

---

## **O.23 Rhif Unigryw'r LAG a Gymerodd Ran yn y Prosiectau Cydweithredu**

Mae rhaniad, yn ôl rhif unigryw, o'r LAG a gymerodd ran yn y prosiectau cydweithredu yn ofynnol.

### **Adrodd Ychwanegol:**

Wrth adrodd ar WEFO Ar-lein, ni ddylai'r ffigur yn y rhaniad fod yn fwy na'r cyfanswm e.e. os mai 1 yw'r gwerth ar gyfer "Rhif Adnabod Unigryw LAG a Gymerodd Ran yn y Prosiectau Cydweithredu", byddai 1 hefyd yn cael ei gofnodi yn y rhaniad ychwanegol a ddangosir isod:

- Cydweithredu rhyngdiriogaethol
- Cydweithredu trawswladol

### **Uned adrodd**

Rhifiadol (dim lleoedd degol) – gwerthoedd cyfan yn unig

### **Ffynhonnell y data ac amseriad adrodd**

Adroddir ar ôl i'r taliad cyntaf gael ei wneud

### **Mesurau i adrodd yn eu herbyn:**

Dylid adrodd y dangosydd hwn yn erbyn y Mesur(au)/Is-fesur(au) canlynol:

19.3

### **Tystiolaeth Archwilio:**

Cadarnhad oddi wrth gorff gweinyddu'r LAG wedi'i seilio ar wybodaeth a geir yn y cytundeb partneriaeth cydweithredu

---

## **R.24/T.23. Swyddi a Grëwyd trwy Brosiectau a Gynorthwywyd (LEADER)**

Nifer y swyddi a grëwyd fel Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) trwy gymorth i gyflawni gweithrediadau o dan y Strategaeth Datblygu Leol (LDS) a ariannwyd trwy'r Rhaglen o dan LEADER. Mae swydd 'a grëwyd' yn swydd gwbl newydd na fyddai wedi bodoli heb arian LEADER.

Dylai swyddi a grëwyd trwy gymorth i gyflawni gweithrediadau o dan yr LDS o dan LEADER gofnodi rhywedd deiliad y swydd. Nid yw'r targed a osodwyd yn y Rhaglen Datblygu Gwledig wedi'i rannu yn ôl rhywedd ond dylai'r data a gesglir yn ystod y gwaith cyflawni gael eu rhannu yn ôl rhywedd.

Dim ond swyddi newydd a grëwyd mewn gwirionedd ddylai gael eu cyfrif, sy'n eithrio swyddi a gynhaliwyd. Mae'n ymwneud â chyflogaeth pan mae'r prosiect ar waith, h.y. os mai creu siop fferm yw'r prosiect, nid yw'n cynnwys cyflogaeth a grëwyd yn ystod y cam cynllunio/adeiladu – ymgynghorydd/pensaer/adeiladwyr – ond y gyflogaeth sy'n cael ei chreu pan mae'r siop ar waith (rheolwr, cynorthwywyr gwerthu ac ati).

Ni ddylid cyfrif gwaith gwirfoddol ond caiff hunangyflogaeth ei chynnwys. Caiff y dangosydd ei gyfrifo mewn FTE; felly, os caiff swydd hanner amser sy'n bodoli eisoes ei throï'n swydd amser llawn, 0.5 yw gwerth y dangosydd (bernir bod hanner swydd wedi cael ei greu).

I gyfrif un swydd a grëwyd, dylai'r contract fod blwyddyn neu ragor o hyd (e.e. 0.5 yw contract chwe mis ar 100%).

### **Uned adrodd**

Rhifiadol – un lle degol

### **Ffynhonnell y data ac amseriad adrodd**

Cofnodir ar adeg dewis prosiectau (cynlluniau busnes), a ddarperir gan LAG i Awdurdodau Rheoli ar ôl cwblhau'r prosiectau ac a ddilysir trwy sampl o brosiectau wedi'u cwblhau, a fydd hefyd yn asesu rhywedd deiliaid y swyddi. Bernir bod prosiect wedi'i gwblhau pan mae'r taliad olaf i hyrwyddwyr y prosiect wedi cael ei roi. Dylid cyflwyno data'r dangosydd yn chwarter 1 o'r flwyddyn ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau.

### **Mesurau i adrodd yn eu herbyn:**

Dylid adrodd y dangosydd hwn yn erbyn Maes Ffocws 6B a'r Mesur(au)/Is-fesur(au) canlynol:

19

### **Tystiolaeth Archwilio**

Pob un o'r canlynol:

- Cadarnhad ysgrifenedig oddi wrth y buddiolwr a gynorthwywyd gan y Rhaglen Datblygu Gwledig bod swydd FTE wedi cael ei chreu
- Cadarnhad ysgrifenedig o'r rhaniad yn ôl Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol a sector

- Disgrifiad swydd

---

## **Nifer y Swyddi a Ddiogelwyd trwy Brosiectau a Gynorthwywyd**

Mae swyddi a ddiogelwyd lle gwyddys bod swyddi mewn perygl dros y 12 mis nesaf.

Dylid sgorio swyddi fel FTE a pharhaol (gellir sgorio swydd dymhorol ar yr amod y disgwylir i'r swydd fod ar gael yn amhenodol; dylid hefyd gofnodi'r gyfran o'r flwyddyn a weithir). Dylid sgorio'r swydd ei hun, nid amcangyfrif o faint o bobl a fydd o bosibl yn dal y swydd.

Os nad yw'r swydd yn un amser llawn bydd angen rhannu'r oriau pob wythnos â 30 i gael y gyfran o FTE mae'n ei chynrychioli (e.e. 0.6 FTE fyddai 18 awr yr wythnos). Dylid hefyd gofnodi rhywedd deiliad y swydd.

### **Uned adrodd**

FTE – rhifiadol un lle degol

### **Ffynhonnell y data ac amseriad adrodd**

Ffurflenni cais / cynlluniau busnes (canlyniad disgwylidig); wedi'u dilysu trwy sampl o brosiectau wedi'u cwblhau (cyfrifon – cyflogres)

### **Mesurau i adrodd yn eu herbyn:**

Dylid adrodd y dangosydd hwn yn erbyn y Mesur(au)/Is-fesur(au) canlynol:

19

### **Tystiolaeth Archwilio**

Pob un o'r canlynol:

- Cadarnhad ysgrifenedig oddi wrth y prosiect a gynorthwywyd bod swydd FTE wedi cael ei diogelu
- Cadarnhad ysgrifenedig o'r rhaniad yn ôl Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol a sector

## **Nifer y Cyfranogwyr a Gynorthwywyd**

*Cyfranogwyr*: nifer y bobl sy'n mynd i ddigwyddiad i ledaenu gwybodaeth ac ati.

Noder na ellir cyfrif nifer y bobl sy'n cael unrhyw fath o ohebiaeth gysylltiedig â lledaenu gwybodaeth (e.e. dosbarthu adroddiad cryno) fel cyfranogwyr.

### **Er enghraifft;**

Pobl a gymerodd ran mewn sesiwn ymwybyddiaeth.

### **Uned adrodd**

Rhifiadol (dim lleoedd degol) – gwerthoedd cyfan yn unig

### **Ffynhonnell y data ac amseriad adrodd**

Ffurflen gais (canlyniad disgwylidiedig), adrodd parhaus, hefyd cadarnhad / diwygiad ar ôl cwblhau'r gweithrediad.

### **Mesurau i adrodd yn eu herbyn:**

Dylid adrodd y dangosydd hwn yn erbyn y Mesur(au)/Is-fesur(au) canlynol:

19

### **Tystiolaeth Archwilio**

Pob un o'r canlynol:

- Cofnod ysgrifenedig o nifer y cyfranogwyr.
- Manylion y digwyddiad; tystiolaeth bod y digwyddiad wedi'i gynorthwyo gan y Rhaglen Datblygu Gwledig e.e. anfoneb a phrawf o'i thalu

## **Nifer y Rhwydweithiau a Sefydlwyd**

Mae'r dangosydd hwn yn cofnodi nifer y rhwydweithiau ffurfiol a ffurfiwyd/grëwyd oherwydd diddordeb cyffredin o ganlyniad uniongyrchol i gyngor, cymorth neu gefnogaeth ariannol oddi wrth y Rhaglen Datblygu Gwledig ac nad oeddent yn bodoli cyn y gwaith o dan y rhaglen.

(Dim ond unwaith yn ystod oes y rhaglen gymeradwy y gellir sgorio pob rhwydwaith)

*Er enghraifft:* Creu rhwydwaith diddordeb arbennig.

### **Uned adrodd**

Rhifiadol (dim lleoedd degol) – gwerthoedd cyfan yn unig

### **Ffynhonnell y data ac amseriad adrodd**

Ffurflen gais, adrodd parhaus, hefyd cadarnhad / diwygiad ar ôl cwblhau'r gweithrediad.

### **Mesurau i adrodd yn eu herbyn:**

Dylid adrodd y dangosydd hwn yn erbyn y Mesur(au)/Is-fesur(au) canlynol:

19

### **Tystiolaeth Archwilio**

Pob un o'r canlynol:

- Manylion yr amcanion
- Manylion y gweithgareddau
- Rhestr o'r aelodau
- Dyddiadau cyfarfodydd, agendâu a chofnodion.

## **Nifer yr Astudiaethau Dichonoldeb**

Nifer yr astudiaethau dichonoldeb penodol a gomisiynwyd neu a gyflawnwyd trwy'r prosiect/rhaglen i ddarparu'r ymchwil gefndir ar gyfer problem neu fater penodol (mewn prosiect/busnes/grŵp cymunedol/cymuned fuddiant penodol) a chynhyrchu gwerthusiad ysgrifenedig cynhwysfawr o'r materion, y gwahanol ddatrysiadau, y costiau ariannol, dadansoddiad risg manwl ac argymhellion ar gyfer y camau nesaf.

### **Er enghraifft;**

Asesiad technegol neu gynllun ar gyfer marchnata cynnyrch/ gwasanaeth penodol neu adroddiad seilwaith marchnad; ac ati.

### **Uned adrodd**

Rhifiadol (dim lleoedd degol) – gwerthoedd cyfan yn unig

### **Ffynhonnell y data ac amseriad adrodd**

Ffurflen gais, adrodd parhaus, hefyd cadarnhad / diwygiad ar ôl cwblhau'r gweithrediad.

### **Mesurau i adrodd yn eu herbyn:**

Dylid adrodd y dangosydd hwn yn erbyn y Mesur(au)/Is-fesur(au) canlynol:

19

### **Tystiolaeth Archwilio**

- Copi caled o'r adroddiad terfynol.



## **Nifer y Rhanddeiliaid yr Ymgysylltwyd â hwy**

### **Rhanddeiliad:**

Unrhyw grŵp neu unigolyn a all effeithio ar gyflawni amcanion y prosiect, neu y gall eu cyflawni effeithio arno, yw rhanddeiliad. Gall y rhain fod yn bobl, grwpiau neu endidau sydd â rôl a buddiant yn amcanion prosiect a'r gwaith o'i gyflawni. Maent yn cynnwys y gymuned y mae'r prosiect neu'r rhaglen yn ceisio newid ei sefyllfa.

### **Ymgysylltiad:**

Diffinnir ymgysylltiad fel rhanddeiliaid sy'n cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gyflawni'r prosiect ar unrhyw adeg.

### **Uned adrodd**

Rhifiadol (dim lleoedd degol) – gwerthoedd cyfan yn unig

### **Ffynhonnell y data ac amseriad adrodd**

Ffurflen gais, adrodd parhaus, hefyd cadarnhad / diwygiad ar ôl cwblhau'r gweithrediad.

### **Er enghraifft;**

Ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy rwydweithio, bywiocáu neu ymgynghori.

### **Mesurau i adrodd yn eu herbyn:**

Dylid adrodd y dangosydd hwn yn erbyn y Mesur(au)/Is-fesur(au) canlynol:

19

### **Tystiolaeth Archwilio**

- Manylion y gweithgareddau ymgysylltu perthnasol.
- Cofnodion presenoldeb os ydynt yn berthnasol.

## **Nifer y Gweithgareddau Peilot a Gyflawnwyd/Gynorthwywyd**

Prosiect wedi'i fwriadu fel treial a gynlluniwyd i roi prawf ar ddull penodol i grŵp cyfyngedig o fuddiolwyr dros gyfnod cyfyngedig; fe'i bwriedir i ddenu gweithgarwch yn y dyfodol yn y maes/disgyblaeth neu sector.

Gellir barnu bod prosiect peilot wedi'i gwblhau pan mae asesiad technegol wedi cael ei gwblhau. Nifer y gweithgareddau peilot a gyflawnwyd/ gynorthwywyd trwy'r gweithgareddau meithrin gallu, wedi'u rhannu fel a ganlyn;

- Dulliau newydd
- Cynhyrchion newydd
- Prosesau newydd
- Gwasanaethau newydd

### **Uned adrodd**

Rhifiadol (dim lleoedd degol) – gwerthoedd cyfan yn unig (gweithgareddau peilot a gwblhawyd)

### **Ffynhonnell y data ac amseriad adrodd**

Ffurflen gais, adrodd parhaus. Cwblhau'r prosiect, tystiolaeth llinell sylfaen, tystiolaeth bod yr asesiad o'r prosiect peilot (a'r asesiad technegol) wedi cael eu cwblhau.

### **Er enghraifft;**

Rhoi prawf ar ddull(iau) newydd o farchnata cynnyrch/gwasanaeth.

### **Mesurau i adrodd yn eu herbyn:**

Dylid adrodd y dangosydd hwn yn erbyn y Mesur(au)/Is-fesur(au) canlynol:

19

### **Tystiolaeth Archwilio**

Cynllun yn nodi'r holl:

- Gamau/ gweithgareddau yn y prosiect peilot.

## **Nifer yr Hybiau Cymunedol**

Nifer yr hybiau cymunedol newydd a ffurfiwyd o ganlyniad uniongyrchol i raglen LEADER.

### **Uned adrodd**

Rhifiadol (dim lleoedd degol) – gwerthoedd cyfan yn unig

### **Ffynhonnell y data ac amseriad adrodd**

Ffurflen gais, adrodd parhaus, hefyd cadarnhad / diwygiad ar ôl cwblhau'r gweithrediad.

*Er enghraifft:* Creu hýb â thema / arbenigol.

### **Mesurau i adrodd yn eu herbyn:**

Dylid adrodd y dangosydd hwn yn erbyn y Mesur(au)/Is-fesur(au) canlynol:

19

### **Tystiolaeth Archwilio**

Pob un o'r canlynol:

- Manylion yr amcanion
  - Manylion y gweithgareddau
  - Rhestr o'r aelodau
  - Dyddiadau cyfarfodydd, agendâu a chofnodion.
-

## **Nifer y Camau Lledaenu Gwybodaeth / Gweithgareddau Hyrwyddo a/neu Farchnata i Godi Ymwybyddiaeth o'r LDS a/neu Brosiectau**

Nifer y camau a gymerwyd gan y Grŵp Gweithredu Lleol i godi ymwybyddiaeth ac esbonio nod ac amcanion y Strategaeth Datblygu Leol a'r gweithgareddau a gyflawnwyd drwyddi i'r boblogaeth wledig.

Nifer y gweithgareddau wedi'u cynllunio a'u targedu a gyflawnwyd gan y Grŵp Gweithredu Lleol sy'n hyrwyddo'r Strategaeth Datblygu Leol a'i phrosiectau NEU gynhyrchu a dosbarthu deunyddiau wedi'u bwriadu i farchnata a hyrwyddo'r Strategaeth Datblygu Leol a'i phrosiectau. Mae'r dangosydd hwn wedi'i rannu i:

- Nifer y *camau lledaenu gwybodaeth* a gymerwyd i *godi ymwybyddiaeth o'r* Strategaeth Datblygu Leol a/neu ei phrosiectau.
- Nifer y *gweithgareddau hyrwyddo a/neu farchnata* a gyflawnwyd i *hyrwyddo'r* Strategaeth Datblygu Leol a/neu ei phrosiectau.

### **Uned adrodd**

Rhifiadol (dim lleoedd degol) – gwerthoedd cyfan yn unig

### **Ffynhonnell y data ac amseriad adrodd**

Ffurflen gais, adrodd parhaus, hefyd cadarnhad / diwygiad ar ôl cwblhau'r gweithrediad.

### **Mesurau i adrodd yn eu herbyn:**

Dylid adrodd y dangosydd hwn yn erbyn y Mesur(au)/Is-fesur(au) canlynol:

19

### **Tystiolaeth Archwilio**

- Copïau caled o'r deunyddiau.

## **Thema LEADER**

Rhaid i weithgareddau o dan LEADER gysylltu ag o leiaf un o bum thema LEADER i Gymru. Dylid dewis Thema/Themâu perthnasol LEADER:

- Thema 1 LEADER: Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol
- Thema 2 LEADER: Hwyluso gwaith datblygu cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr
- Thema 3 LEADER: Edrych ar ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol
- Thema 4 LEADER: Ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol
- Thema 5 LEADER: Manteisio ar dechnoleg ddigidol

### **Ffynhonnell y data ac amseriad adrodd**

Ffurflen gais, adrodd parhaus, hefyd cadarnhad / diwygiad ar ôl cwblhau'r gweithrediad.

### **Uned adrodd**

Rhifiadol (dim lleoedd degol) – gwerthoedd cyfan yn unig

### **Ffynhonnell y data ac amseriad adrodd**

Adroddir ar ôl dewis LAG

### **Mesurau i adrodd yn eu herbyn:**

Dylid adrodd y dangosydd hwn yn erbyn y Mesur(au)/Is-fesur(au) canlynol:

19

### **Tystiolaeth Archwilio**

Cadarnhad ysgrifenedig oddi wrth gorff gweinyddu'r LAG ynghylch y thema/themâu a ddewiswyd ar gyfer pob prosiect a gymeradwywyd

---

**Blaenoriaethau a Meysydd Ffocws**

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yw'r rhaglen sy'n cyflawni ail Golofn y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yng Nghymru.

Mae'n rhaglen ar y cyd â'r Comisiwn Ewropeaidd gan fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gydariannu'r dyraniad Ewropeaidd er mwyn iddo gael ei dynnu i lawr.

I Lywodraeth Cymru prif amcanion Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yw:

- Sicrhau a chynnal ecosystemau bioamrywiol iach sy'n gweithredu;
- Cynyddu sgiliau, gwybodaeth ac arloesedd;
- Hybu twf economaidd cryf a chynaliadwy;
- Cefnogi cymunedau cryf, cydnerth a bywiog; a
- Diwallu'r angen i fynd i'r afael â phroblemau tymor byr ac ar yr un pryd cefnogi camau gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r goblygiadau yn y tymor hirach.

Mae'r amcanion Ewropeaidd cyfochrog wedi'u nodi yn Rheoliad (UE) Rhif 1305/2013 ar gymorth i Ddatblygu Gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) ac maent fel a ganlyn:

- Cystadleurwydd amaethyddiaeth
- Sicrhau rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, a gweithredu ar yr hinsawdd;
- Sicrhau datblygiad tiriogaethol cytbwys economïau a chymunedau gwledig gan gynnwys creu a chynnal cyflogaeth."

Caiff yr amcanion hyn eu cefnogi wedyn gan **6 Blaenoriaeth** sydd wedi cael eu rhannu ymhellach i **18 Maes Ffocws (FA)**:

---

***Blaenoriaeth 1: Meithrin trosglwyddo gwybodaeth ac arloesedd mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth ac ardaloedd gwledig***

---

**FA 1(a)** Meithrin arloesedd a'r sylfaen wybodaeth mewn ardaloedd gwledig

**FA 1(b)** Cryfhau'r cysylltiadau rhwng amaethyddiaeth a choedwigaeth ac arloesedd ymchwil

**FA 1(c)** Meithrin dysgu gydol oes a hyfforddiant galwedigaethol yn sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth

---

***Blaenoriaeth 2: Gwella cystadleurwydd pob math o amaethyddiaeth a gwella hyfywedd ffermydd***

---

**FA 2(a)** Hwyluso ailstrwythuro ffermydd sy'n wynebu problemau strwythurol mawr, yn enwedig ffermydd â graddau isel o gyfranogi yn y farchnad, ffermydd sy'n canolbwyntio ar y farchnad mewn sectorau penodol a ffermydd y mae arnynt angen arallgyfeirio amaethyddol

**FA 2(b)** Hwyluso adnewyddu cenedlaethau yn y sector amaethyddol

---

**Blaenoriaeth 3: Hybu trefniadaeth y gadwyn fwyd a rheoli risg mewn amaethyddiaeth**

---

**FA 3(a)** Integreiddio cynhyrchwyr cynradd i'r gadwyn fwyd yn well trwy gynlluniau ansawdd, hyrwyddo mewn marchnadoedd lleol a chylchoedd cyflenwi byr, grwpiau cynhyrchwyr a sefydliadau rhyng-gangen

**FA 3(b)** Cynorthwyo â rheoli risg ar ffermydd

---

**Blaenoriaeth 4: Adfer, cadw a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth**

---

**FA 4(a)** Adfer a chadw bioamrywiaeth, gan gynnwys mewn ardaloedd Natura 2000 a ffermio sydd o werth mawr i natur, a chyflwr tirweddau Ewropeaidd

**FA 4(b)** Gwella'r ffordd y rheolir dŵr

**FA 4(c)** Gwella'r ffordd y rheolir pridd

---

**Blaenoriaeth 5: Hybu effeithlonrwydd adnoddau a chefnogi'r newid tuag at economi carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd yn sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth**

---

**FA 5(a)** Sicrhau bod amaethyddiaeth yn defnyddio dŵr yn fwy effeithlon

**FA 5(b)** Sicrhau y defnyddir ynni'n fwy effeithlon mewn amaethyddiaeth a phrosesu bwyd

**FA 5(c)** Hwyluso cyflenwad a defnydd ffynonellau ynni adnewyddadwy, sgil-gynhyrchion, gwastraffau, gweddillion a deunyddiau crai eraill nad ydynt yn fwyd at ddibenion y fio-economi

**FA 5(d)** Lleihau allyriadau ocsid nitrus a methan o amaethyddiaeth

**FA 5(e)** Meithrin dal a storio carbon mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth

---

**Blaenoriaeth 6: Hybu cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygiad economaidd mewn ardaloedd gwledig**

---

**FA 6(a)** Hwyluso arallgyfeirio, creu busnesau bach newydd a chreu swyddi

**FA 6(b)** Meithrin datblygiad lleol mewn ardaloedd gwledig

**FA 6(c)** Gwella mynediad at dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), y defnydd ohonynt a'u hansawdd mewn ardaloedd gwledig

Mae'n rhaid i'r holl flaenoriaethau hyn gyfrannu at amcanion trawsbynciol arloesedd, yr amgylchedd a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu iddo.

Mae LEADER wedi'i raglennu o dan Faes Ffocws 6b ('Meithrin datblygiad lleol mewn ardaloedd gwledig'). Fodd bynnag, ar gyfer pob prosiect unigol dylai'r LAG nodi beth yw Fersiwn: 1.0

Dyddiad Cyhoeddi: Mehefin 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru

Tudalen 31 o 32

prif amcan y prosiect a'i briodoli i'r Maes Ffocws mwyaf perthnasol, gan gofnodi cynnydd yn erbyn yr un dangosydd ar gyfer y Maes Ffocws hwnnw.

Isod rhoddir y rhestr o ddangosyddion sydd i gael eu casglu gan ddibynnu ar amcan mwyaf perthnasol y prosiect LEADER:

FA 1A	-
FA 1B	Nifer y gweithrediadau cydweithredu
FA 1C	Nifer y cyfranogwyr a hyfforddwyd
FA 2A a 2B	Nifer y daliadau/buddiolwyr a gynorthwywyd
FA 3A a 3B	Nifer y daliadau a gynorthwywyd neu sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau a gynorthwywyd
FA 4A, 4B a 4C	Cyfanswm arwynebedd (amaethyddiaeth)
FA 4A, 4B a 4C	Cyfanswm arwynebedd (coedwigaeth)
FA 5A	Cyfanswm arwynebedd
FA 5B a 5C	Cyfanswm buddsoddiad
FA 5D	Cyfanswm arwynebedd neu nifer yr Unedau Da Byw
FA 5E	Cyfanswm arwynebedd
FA 6A	-
FA 6B	Poblogaeth sy'n cael budd o wasanaethau/seilweithiau gwell
FA 6C	Poblogaeth sy'n cael budd o wasanaethau/seilweithiau TGCh gwell

I gael mwy o wybodaeth gweler y dangosydd ['Nifer y prosiectau LEADER a gynorthwywyd'](#)